# Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

20 – 25 Mawrth 2013

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder defnyddwyr o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, a bwyd anifeiliaid a bwyd a fewnforiwyd. Mae'r swyddogaethau rheoleiddiol hyn sydd gan awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni'n bennaf trwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer arolygu busnesau bwyd, samplu bwyd, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi a hybu diogelwch bwyd. Dylid cydnabod y gallai fod cryn amrywiaeth yn y ffordd a'r modd y mae awdurdodau'n darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae "Y Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid gan Awdurdodau Lleol (a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2010), ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn:
www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau'n darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfle i amlygu a lledaenu arfer da a darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, a gellir ei weld yn:
www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

Er hwylustod, rhoddir rhestr o’r termau technegol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad C.

| | CYNNWYS | Tudalen |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad** | **5** |
| | Y Rheswm dros yr Archwiliad | **5** |
| | Cwmpas yr Archwiliad | **5** |
| | Cefndir | **6** |
| 2 | **Crynodeb Gweithredol** | **10** |
| | **Canfyddiadau'r Archwiliad** | **12** |
| 3 | Trefniadaeth a Rheolaeth | **12** |
| 4 | Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig | **16** |
| 5 | Swyddogion Awdurdodedig | **17** |
| 6 | Cyfleusterau ac Offer | **19** |
| 7 | Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd | **20** |
| 8 | Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd | **26** |
| 9 | Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref | **28** |
| 10 | Cyngor i Fusnesau | **29** |
| 11 | Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd | **30** |
| 12 | Arolygu a Samplu Bwyd | **31** |
| 13 | Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd | **33** |
| 14 | Digwyddiadau Diogelwch Bwyd | **34** |
| 15 | Gorfodi | **35** |
| 16 | Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Adolygu | **39** |
| 17 | Cwynion am y Gwasanaeth | **42** |
| 18 | Cyswllt â Sefydliadau Eraill | **43** |
| 19 | Monitro Mewnol | **44** |
| 20 | Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid | **46** |
| 21 | Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd | **47** |
| | **Atodiadau** | |
| A | Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | **48** |
| B | Dull/Methodoleg yr Archwiliad | **58** |
| C | Rhestr Termau | **61** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad o hylendid bwyd a safonau bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan yr Asiantaeth yn ***www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports***

***Y Rheswm dros yr Archwiliad***

1.2 Rhoddwyd y grym i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.

1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu i drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw dilysu pa un a yw rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig, wedi sefydlu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r Asiantaeth wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.[1]

1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

***Cwmpas yr Archwiliad***

1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith hylendid bwyd a safonau bwyd.

[1] Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 sy'n amlinellu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o reolaethau swyddogol i ddilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (2006/677/CE).

Cynhaliwyd yr elfen ‘ar y safle’ o’r archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 20 – 25 Mawrth 2013, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod mewn safleoedd busnes bwyd ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwr busnes bwyd â gofynion deddfwriaethol.

1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn rhoi cyfle i drafod gyda swyddogion sy’n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda’r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi’r Asiantaeth.

1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â’r “Safon”. Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe’i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae’n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae’r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

1.8 Roedd yr awdurdod yn un o ddau yng Nghymru a wirfoddolodd i ddatblygu cynllun sgorio archwiliadau awdurdodau lleol ar ôl i’r archwiliad gael ei gwblhau.

1.9 Dylid nodi nad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yr awdurdod wedi’i gynnwys yng nghwmpas yr archwiliad. Roedd y posibilrwydd o ddarparu’r gwasanaeth hwn ar y cyd yng Nghymru yn cael ei ystyried ar adeg yr archwiliad. O ganlyniad, o ran y ddau Awdurdod a wirfoddolodd i dreialu’r cynllun sgorio archwiliadau awdurdodau lleol, cytunwyd y byddai bwyd anifeiliaid yn cael ei archwilio yn ddiweddarach yn y cylch archwilio.

***Cefndir***

1.10 Awdurdod Unedol yng Nghymru yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’n cynnwys ardal o 285 o gilomedrau sgwâr ac yn ymestyn 20 cilomedr o’r dwyrain i’r gorllewin. Mae oddeutu 139,000 o bobl yn byw yno.

1.11 Mae’r ardal i’r gogledd o’r M4 yn cynnwys hen gymunedau glofaol y cymoedd yn bennaf, a Maesteg yw ei phrif ganolfan boblogaeth.

1.12 Mae gan sawl ward yn ardal yr awdurdod sgôr uchel ar Fynegai Amddifadedd Cymru. Mae 11% o ardaloedd lleol Pen-y-bont ar Ogwr ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

1.13 I'r de o'r draffordd ceir Pen-y-bont ar Ogwr ei hun a thref arfordirol Porthcawl, cyrchfan glan môr traddodiadol gyda chyfran uwch o breswylwyr oedrannus. Daw llawer iawn o ymwelwyr i'r dref yn ystod misoedd yr haf, ac mae hefyd yn cynnal y parc carafanau mwyaf yn Ewrop.

1.14 Pen-y-bont ar Ogwr yw'r dref fwyaf yn ardal yr awdurdod a chanolbwynt yr economi leol. Mae canolfannau cyflogaeth arwyddocaol yn cynnwys Ffatri Beirianneg Ford, ystad ddiwydiannol helaeth, a Phentref Manwerthu Nwyddau Dylunwyr.

1.15 Adran Amddiffyn y Cyhoedd yr awdurdod oedd yn gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, ac am ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a'u rheoli. Mae'r Adran yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, sydd wedi'i lleoli yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr.

1.16 Yn yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd, y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol am orfodi cyfraith hylendid bwyd ac ymchwilio i glefydau trosglwyddadwy a'u rheoli. Y Gwasanaeth Safonau Masnach oedd yn gyfrifol am orfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

1.17 Roedd Swyddfeydd yr awdurdod ar agor i'r cyhoedd o 08.30 tan 17.00 o ddydd Llun i ddydd Iau ac o 08.30 tan 16.30 ar ddydd Gwener.

1.18 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ffurfiol wedi'u sefydlu i ymdrin ag argyfyngau Amddiffyn y Cyhoedd y tu allan i oriau swyddfa, a oedd yn cynnwys ymateb i ddigwyddiadau bwyd a hysbysiadau am glefydau trosglwyddadwy. Ni phrofwyd y trefniadau hyn fel rhan o'r archwiliad.

1.19 Yn ôl Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2012/13, roedd proffil busnesau bwyd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:

| Math o safle bwyd | Nifer |
|---|---|
| Cynhyrchwyr Cynradd | 8 |
| Gweithgynhyrchwyr/Pacwyr | 26 |
| Mewnforwyr/Allforwyr | 1 |
| Dosbarthwyr/Cludwyr | 15 |
| Archfarchnad/Hyperfarchnad | 44 |
| Manwerthwyr Bach | 227 |
| Manwerthwr/Arall | 25 |

| | |
|---|---|
| Bwyty/Caffi/Ffreutur | 180 |
| Gwesty | 32 |
| Tafarn/Clwb | 228 |
| Siop Tecawê | 117 |
| Safle Gofalu | 160 |
| Ysgol/Coleg | 66 |
| Uned Fwyd Symudol | 44 |
| Bwytai ac Arlwywyr Eraill | 88 |
| Heb ei ganfod eto | 2 |
| Amhenodol | 2 |
| **Cyfanswm nifer y safleoedd bwyd** | **1,265** |

1.20 Ar adeg yr archwiliad, roedd chwe safle wedi’u cymeradwyo o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion cig, llaeth neu wyau.

1.21 Rhoddwyd sgoriau risg hylendid bwyd busnesau bwyd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2012/13:

***Sgoriau risg hylendid bwyd:***

| Categori risg safleoedd | Nifer y safleoedd |
|---|---|
| A | 29 |
| B | 153 |
| C | 579 |
| D | 150 |
| E | 235 |
| Heb eu Sgorio | 35 |
| Y Tu Allan i’r Rhaglen | 84 |
| **Cyfanswm** | **1,265** |

1.22 Rhoddwyd sgoriau risg safonau bwyd busnesau bwyd Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd:

***Sgoriau risg safonau bwyd:***

| Categori risg safleoedd | Nifer y safleoedd |
|---|---|
| Uchel (A) | 29 |
| Canolig (B) | 153 |
| Isel (C) | 579 |
| **Cyfanswm** | **761** |

1.23 Yn ôl Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer 2012/13, roedd gan yr awdurdod 9.5 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn yn

ymwneud â diogelwch bwyd ac 1.7 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn yn ymwneud â safonau bwyd.

1.24 Nodwyd yng Nghynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd bod cyllideb y gwasanaeth diogelwch bwyd ychydig yn llai na £606,000 yn 2012/13.

1.25 Roedd yr awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Hydref 2010.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr awdurdod yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a oedd yn gweithio'n agos gyda busnesau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â chyfraith bwyd. Roedd cyngor yn cael ei roi yn ystod arolygiadau, trwy ohebiaeth ac ar y ffôn. Roedd llythyrau'n cael eu hanfon hefyd o bryd i'w gilydd ynglŷn â materion pwysig.

2.2 Roedd pwysigrwydd hyfforddiant rheolaidd wedi'i gydnabod ac roedd swyddogion yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r datblygiad proffesiynol parhaus sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

2.3 Roedd yn amlwg bod yr awdurdod yn ymrwymedig i gyflawni rhaglen ymyriadau hylendid bwyd a oedd yn canolbwyntio ar y safleoedd risg uchaf. Yn gyffredinol, roedd yr awdurdod yn darparu gwasanaeth hylendid bwyd cynhwysfawr ac effeithiol, gyda rhai meysydd i'w gwella wedi'u hamlygu.

2.4 Er bod yr archwilwyr yn fodlon bod y staff yn gymwys i gyflawni ymyriadau safonau bwyd, mynegwyd pryder nad oedd yr awdurdod yn cynnal ei ymyriadau safonau bwyd yn ddigon aml. Yn ogystal, nid oedd digon o dystiolaeth yn cael ei chadw i ddangos bod arolygiadau safonau bwyd effeithiol yn cael eu cynnal.

2.5 Amlygwyd gwaith dilynol a gynhaliwyd gan swyddogion mewn ymateb i ganlyniadau samplu microbiolegol ymylol fel maes arfer da.

### 2.6 Cryfderau'r Awdurdod

***Cyngor i Fusnesau***
Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cymorth i fusnesau i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd.

***Samplu***
Roedd yr holl waith samplu bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau samplu. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw'n dda ac roedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd lle y canfuwyd samplau anfoddhaol. Mewn achosion lle yr oedd canlyniadau samplu'n ymylol, roedd swyddogion yn rhoi cyngor priodol i fusnesau a oedd wedi'i gofnodi.

***Rheoli Perfformiad a Chraffu***
Roedd y Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd yn cyflwyno adroddiadau perfformiad rheolaidd ar orfodi cyfraith bwyd i'r Pwyllgor Craffu

perthnasol. Roedd tystiolaeth fod aelodau etholedig yn rhagweithiol wrth graffu ar berfformiad, yn enwedig o ran hylendid bwyd.

## 2.7 Meysydd Allweddol i'w Gwella ar gyfer yr Awdurdod

***Amlder Ymyriadau Safonau Bwyd***

Nid oedd yr awdurdod yn cynnal ei ymyriadau safonau bwyd yn unol â'r amlder gofynnol. Mae cynnal ymyriadau yn unol â'r amlder gofynnol yn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu hamlygu mewn modd amserol.

***Ymyriadau Safonau Bwyd***

Nid oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddid yn gyson â'r cynllun sgorio risg yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, nac yn gyfatebol iddo.

***Cofnodion Arolygu Safonau Bwyd***

Nid oedd cofnodion arolygiadau safonau bwyd yn ddigon manwl i gadarnhau bod arolygiadau effeithiol wedi'u cynnal. Mae cofnodion manwl yn angenrheidiol er mwyn llywio dull graddol a chyson o orfodi ac er mwyn galluogi monitro mewnol effeithiol.

***Monitro Gwaith Safonau Bwyd yn Fewnol***

Er bod gwaith safonau bwyd yn cael ei fonitro'n feintiol, nid oedd tystiolaeth o fonitro mewnol ansoddol. Roedd gweithdrefn newydd wedi'i datblygu y mae'r awdurdod yn bwriadu ei rhoi ar waith.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

## 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio'r Gwasanaeth*

3.1. Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno ei weledigaeth "i ddarparu'r gwasanaethau lleol gorau yng Nghymru" yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-13. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon ac yn amlinellu amcanion gwella allweddol yr awdurdod.

3.2 Roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu chwe thema strategol yn ei Gynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys Byw'n Iach. O dan y thema hon, mynegwyd ymrwymiad "i gryfhau gwaith gorfodi ac addysg ym maes hylendid bwyd".

3.3 Roedd Cynllun y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol ar gyfer 2012/13 yn amlinellu ei chyfraniad at gyflawni'r amcanion gwella a restrwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Cyfeiriodd y Cynllun at gyflawniadau yn ystod 2011/12 ynghyd â risgiau a heriau ar gyfer 2012/13. Un o flaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2012/13 oedd "cryfhau'r drefn o arolygu safleoedd bwyd a safleoedd trwyddedig a pharhau i gryfhau gwaith gorfodi ac addysg mewn perthynas â hylendid bwyd".

3.4 Cyflwynwyd adroddiadau ar berfformiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Diogelwch Cymunedol a Llywodraethu'r awdurdod bob tri mis o ran y dangosyddion perfformiad canlynol:

- Canran y busnesau risg uchel a oedd yn ddarostyngedig i arolygiad a drefnwyd neu weithgarwch arolygu arall a gafodd eu harolygu/a fu'n ddarostyngedig i weithgarwch gorfodi arall o ran i) safonau masnach a ii) hylendid bwyd

- Canran y busnesau newydd a amlygwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn ddarostyngedig i arolygiad neu a gyflwynodd holiadur hunanasesu o ran hylendid bwyd

- Canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd

3.5 Yn ystod Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, rhoddwyd ystyriaeth i berfformiad gan gynnwys cyflawniad yn unol â thargedau dangosyddion perfformiad, cyflawniadau eraill, absenoldeb staff, hyfforddiant a

gynlluniwyd, hyfforddiant a gyflawnwyd, arfarniadau staff, parhad busnes, risgiau busnes, cwynion gan gwsmeriaid, cyllidebau, prosiectau gweithio ar y cyd ac iechyd a diogelwch staff.

3.6 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer 2012/13 a oedd, at ei gilydd, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth a gynhwysir yn y Cytundeb Fframwaith. Rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â safonau bwyd yng Nghynllun Darparu'r Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu ar gyfer 2012/13. Cymeradwywyd y Cynlluniau gan Gabinet yr awdurdod ym mis Mehefin 2012 ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan yr awdurdod.

3.7 Roedd Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn datgan mai nodau ac amcanion Amddiffyn y Cyhoedd oedd "darparu amgylchedd masnachu teg, diogel a chyfiawn yn y Fwrdeistref er budd defnyddwyr a'r gymuned fusnes ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd trwy sicrhau bod bwyd a gyflenwir i'w fwyta gan bobl sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei fwyta yn y Fwrdeistref Sirol yn rhydd rhag risg i iechyd a diogelwch y defnyddiwr, a'i fod wedi'i labelu a'i ddisgrifio'n gywir." Roedd y Cynllun yn datgan y byddai'r amcan olaf yn cael ei gyflawni trwy raglen waith a fyddai'n cynnwys:

- Arolygiadau seiliedig ar risg
- Samplu a dadansoddi bwyd a bwyd anifeiliaid
- Cynghori ac addysgu busnesau a defnyddwyr
- Ymchwilio i glefydau heintus a gludir mewn bwyd
- Ymchwilio i gwynion yn ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid
- Hyfforddiant a datblygiad staff

3.8 Roedd cysylltiadau eglur rhwng Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a nodau strategol yr awdurdod a amlinellir yn y Strategaeth Gymunedol "Dyfodol Disglair."

3.9 Er bod Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn darparu manylion am y math o fusnesau bwyd yn yr awdurdod, ynghyd â'r proffil risg ar gyfer hylendid bwyd, nid oedd yn darparu manylion am nifer yr ymyriadau y dylid eu cynnal yn 2012/13. Roedd yr archwilwyr yn cydnabod bod y wybodaeth hon ar gael o ffynonellau eraill yn yr awdurdod a bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn wedi'u sefydlu i fonitro'r broses o gyflawni'r rhaglen ymyriadau hylendid bwyd. O ran safonau bwyd, adroddwyd bod proffil risg busnesau bwyd yn cyfateb yn union i'r proffil risg ar gyfer hylendid bwyd h.y. roedd nifer y safleoedd â sgôr categori A, B ac C yr un fath. Fodd bynnag, nid oedd nifer y safleoedd yr adroddwyd y dylid eu harolygu yn gyson â'r nifer a roddwyd yng Nghynllun Darparu'r Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu.

3.10 Roedd rhaglen ymyriadau hylendid bwyd yr awdurdod yn cynnwys safleoedd yng nghategorïau risg A-D. Fodd bynnag, amlygwyd mai'r polisi oedd mabwysiadu dull seiliedig ar risg gan ganolbwyntio ar safleoedd risg uwch yng nghategorïau A, B ac C. Yn ogystal, roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi a rhaglen yn fwy diweddar yn ymwneud â defnyddio strategaethau gorfodi eraill ar gyfer safleoedd categori E. O ran safonau bwyd, polisi'r awdurdod oedd arolygu safleoedd risg uchel a chanolig. Ni amlinellodd yr awdurdod ei ymagwedd at fusnesau bwyd â sgôr risg isel ar gyfer safonau bwyd, er y nodwyd bod yr awdurdod yn defnyddio strategaethau gorfodi eraill yn ymarferol.

3.11 Roedd Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn cyfeirio at raglen samplu microbiolegol flynyddol, gofnodedig a oedd yn cynnwys mentrau cenedlaethol a lleol amrywiol, a rhaglen samplu safonau bwyd.

3.12 Amlinellwyd y trefniadau monitro mewnol yng Nghynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer hylendid bwyd. Ni chyfeiriwyd yn benodol at drefniadau monitro mewnol ar gyfer safonau bwyd.

3.13 Cadarnhaodd Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd fod yr adnoddau a oedd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd yn gyson â'r hyn sy'n ofynnol (9.5 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn). Er yr adroddwyd bod 1.7 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn ar gael i ddarparu gwasanaeth gorfodi safonau bwyd, ni chyfrifwyd yr adnoddau yr oedd eu hangen i gyflawni'r ystod lawn o weithgareddau gorfodi safonau bwyd statudol.

3.14 Roedd y gyllideb ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei monitro'n ofalus gan y Pennaeth Gwasanaeth a oedd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Adroddwyd mai cost darparu'r gwasanaeth diogelwch bwyd ar gyfer 2012/13 oedd ychydig o dan £606,000. Fodd bynnag, ni ddatganwyd pa un a oedd hyn yn gynnydd neu'n ostyngiad net ar gostau 2011/12.

3.15 Yn ôl Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer 2012/13, mae dogfen adolygu blynyddol Amddiffyn y Cyhoedd yn adrodd ar bob agwedd ar y gwaith a wneir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys diogelwch bwyd a safonau bwyd. Er nad oedd y ddogfen hon ar gael ar gyfer 2011/12, roedd rhai agweddau ar berfformiad yr awdurdod o ran hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u hadolygu a'u hadrodd yn gorfforaethol. Trafododd yr archwilwyr fanteision posibl cynnal adolygiad cofnodedig o bob rhan o'r cynllun darparu gwasanaeth a'i gynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd dilynol.

***Argymhellion***

3.16 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan gydymffurfio'n llawn â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig

4.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Gweithdrefn Rheoli Dogfennau a oedd yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gweithgareddau gorfodi sy'n ddarostyngedig i'r Safon yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd fel y bo'r angen. Roedd y weithdrefn, ynghyd â dogfennau a ddatblygwyd yn unol â'r weithdrefn, yn cael ei chadw'n electronig.

4.2 Roedd polisïau a gweithdrefnau cofnodedig wedi'u cynhyrchu ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd ac ymchwilio i glefydau heintus a'u rheoli. Roedd rheolwyr gwasanaeth a phrif swyddogion yn gyfrifol am amlygu'r angen am bolisïau a gweithdrefnau newydd.

4.3 Roedd rheolwyr gwasanaeth yn gyfrifol am gymeradwyo'r holl weithdrefnau newydd a diwygiedig, tra bod y Rheolwr Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd yn cymeradwyo'r holl Bolisïau newydd a diwygiedig, gan sicrhau cymeradwyaeth gan aelodau etholedig priodol lle y bo'r angen.

4.4 Roedd copïau cyfredol, rheoledig o ddogfennau a chanllawiau a roddwyd yn ganolog ar gael i swyddogion yn electronig. Roedd deddfwriaeth, Codau Ymarfer a dogfennau priodol eraill ar gael i swyddogion ar y rhyngrwyd hefyd.

4.5 Dangosodd gwiriad a gynhaliwyd yn ystod yr archwiliad fod dogfennau a ddisodlwyd wedi'u marcio'n eglur, wedi'u symud o ddefnydd ac wedi'u cadw mewn ffolder ar wahân.

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd gan yr awdurdod Gofrestr Ddirprwyaethau a oedd yn amlinellu'r swyddogaethau a ddirprwywyd i swyddogion.

5.2 Roedd yr awdurdod wedi sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefn gofnodedig gynhwysfawr ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymwysterau, eu profiad a'u cymhwysedd.

5.3 Roedd cwmpas awdurdodiadau swyddogion wedi'i gofnodi'n eglur. Roedd dogfennau awdurdodi'n cael eu llofnodi'n briodol gan y Rheolwr Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd ar ôl cael cadarnhad ynglŷn â chymwysterau, profiad a chymhwysedd y swyddogion gan y Prif Swyddogion a'r Rheolwyr Gwasanaeth.

5.4 Roedd manylion y broses ymarferol ar gyfer asesu cymhwysedd swyddogion wedi'u hamlinellu yn y weithdrefn. Roedd y weithdrefn hefyd yn cyfeirio at y Weithdrefn Fonitro Fewnol ar gyfer asesu cymhwysedd a'r Weithdrefn Hyfforddiant a Datblygiad.

5.5 Roedd y Weithdrefn Awdurdodi ar gyfer hylendid bwyd yn cynnwys Rhestr Sefydlu ddefnyddiol o Bolisïau, Gweithdrefnau a dogfennau allweddol eraill. Roedd yn ofynnol i swyddogion nodi ar y rhestr y dyddiad y darllenwyd pob un o'r dogfennau cyn iddi gael ei chydarwyddo gan y Prif Swyddog.

5.6 Er bod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol, yn gyffredinol, canfuwyd nad oedd awdurdodiadau i orfodi deddfwriaeth yn ymwneud â bwyd a fewnforiwyd yn ddigonol. Nid oedd swyddogion wedi'u hawdurdodi'n benodol i orfodi Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 na Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

5.7 Cadarnhaodd gwiriadau dilysu fod swyddogion a chanddynt gyfrifoldeb arweiniol am hylendid bwyd a safonau bwyd yn meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r hyfforddiant arbenigol i gyflawni eu swyddogaethau. Canfuwyd hefyd bod swyddogion a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau o dan ddeddfwriaeth benodol yn meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r hyfforddiant arbenigol angenrheidiol.

5.8 Cadarnhaodd asesiad o awdurdodiadau fod swyddogion parhaol wedi'u hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u cymhwysedd, a'u bod wedi gweithredu yn unol â'u hawdurdodiadau. Nid oedd hyn yn wir am gontractwyr a staff dros dro, oherwydd bod y cofnodion ar gyfer dau unigolyn yn cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw awdurdodiad

gan yr awdurdod. Yn ogystal, nodwyd nad oedd unrhyw staff wedi cael eu hawdurdodi i gynnal strategaethau gorfodi eraill.

5.9 Roedd gan yr awdurdod system o adolygiadau perfformiad blynyddol wedi'i sefydlu a ategwyd gan adolygiadau chwemisol. Roedd y broses yn cynnwys trafod ac asesu anghenion hyfforddi swyddogion. Roedd canlyniad yr asesiadau hyn yn cyfrannu at Gynllun Hyfforddiant Blynyddol Amddiffyn y Cyhoedd.

5.10 Roedd y Tîm Cymorth Busnes yn sicrhau bod cofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal yn dda yn gyffredinol. Roedd swyddogion hefyd yn cadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant yn eu portffolios personol.

5.11 Canfu adolygiad o gymwysterau a hyfforddiant swyddogion fod yr holl swyddogion wedi derbyn o leiaf 10 awr o hyfforddiant yn ymwneud â bwyd fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer a, heblaw am un swyddog, bod tystiolaeth o gymwysterau'n cael ei chadw mewn ffeil.

5.12 Nid oedd cofnodion cymwysterau a hyfforddiant contractwyr ar gael yn ystod yr archwiliad. Fodd bynnag, darparwyd y rhain i'r archwilwyr yn ddiweddarach.

***Argymhellion***

5.13 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu'r Cynllun Dirprwyo ac awdurdodiadau swyddogion i gynnwys darpariaethau priodol Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau bod contractwyr a staff dros dro yn cael eu hawdurdodi'n briodol o dan ddeddfwriaeth gyfredol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u cymhwysedd. [Y Safon – 5.3]

(iii) Sicrhau bod cofnodion cymwysterau a hyfforddiant perthnasol staff (gan gynnwys contractwyr) yn cael eu cadw ar ffeil. [Y Safon – 5.5]

## 6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr awdurdod wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cyfleusterau a'r offer angenrheidiol ar gael i gefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol. Nodwyd nad oedd cyfleuster ar gael i fonitro tymheredd samplau bwyd wrth iddynt gael eu cludo.

6.2 Roedd gweithdrefn wedi'i datblygu ar gyfer Graddnodi a Chynnal a Chadw Offer er mwyn sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi'n briodol, ac yn cael ei symud o wasanaeth pe ganfyddid ei fod yn ddiffygiol. Roedd lefelau goddefiant wedi'u datgan yn benodol ynghyd â'r camau i'w cymryd pe byddent yn cael eu torri.

6.3 Roedd tystysgrifau graddnodi dilys ar gael ar gyfer yr holl offer monitro tymheredd a ddefnyddiwyd at ddibenion gorfodi ac roedd cofnodion priodol wedi'u cadw.

6.4 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a ddefnyddiwyd i gynnal cronfa ddata safleoedd bwyd ac i gofnodi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd y system yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.5 Roedd gan yr awdurdod fesurau diogelwch digonol wedi'u sefydlu i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad at y system.

6.6 Roedd swyddog cymorth busnes yn darparu adroddiadau rheoli a pherfformiad rheolaidd o'r gronfa ddata a chymorth hollbwysig wrth ddarparu data ar gyfer ffurflen System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) yr Asiantaeth.

6.7 Roedd systemau wrth gefn wedi'u sefydlu i leihau cymaint â phosibl ar y risg o golli gwybodaeth o'r gronfa ddata a ffeiliau electronig a ddefnyddiwyd i gadw gwybodaeth allweddol.

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd

### *Hylendid Bwyd*

7.1 Yn 2011/12, roedd yr awdurdod wedi adrodd trwy LAEMS bod 100% o'r busnesau bwyd risg uchel (categori A-C) y dylid bod wedi'u harolygu wedi cael eu harolygu, ynghyd ag 80% o safleoedd eraill (categorïau D ac E). Adroddwyd bod 77.35% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio'n fras' â chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai hynny sydd y tu allan i gwmpas cynllun Sgorio Risg y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd). Roedd hyn yn welliant ar y 70.51% a oedd yn 'cydymffurfio'n fras' a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol.

7.2 Roedd gan yr awdurdod Weithdrefn Ymyriadau ac Ailymweliadau Bwyd gofnodedig a chynhwysfawr a oedd yn sefydlu dull unffurf o gynnal arolygiadau hylendid bwyd. Roedd y weithdrefn yn datgan y byddai sefydliadau â sgôr A, B, C neu D yn destun arolygiad llawn. Roedd gan yr awdurdod raglen o Strategaethau Ymyrryd Eraill ar gyfer sefydliadau categori E hefyd.

7.3 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn ar wahân ar gyfer gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a oedd yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddarparu yn unol â safon brand yr Asiantaeth.

7.4 Roedd y Weithdrefn Ymyriadau ac Ailymweliadau Hylendid Bwyd yn cynnwys ffurflen arolygu hylendid bwyd er mwyn i swyddogion gofnodi gwybodaeth yn ystod arolygiadau, ac adroddiad cryno ar arolygiad safle bwyd a adawyd gyda busnes bwyd ar ôl arolygiad. Roedd y Rheoliad Llywodraeth Leol 'Canllawiau ar Arolygiadau Hylendid Bwyd' ar gael i swyddogion hefyd.

7.5 Archwiliwyd ffeiliau chwe safle bwyd. Roedd yr hanes arolygiadau yn cadarnhau bod pump o'r chwech wedi'u harolygu yn unol â'r amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer. Busnes newydd oedd y safle nad oedd wedi'i arolygu yn unol â'r amlder gofynnol. Fe agorodd ym mis Awst 2010 ond ni chafodd arolygiad tan fis Ionawr 2011, pryd y rhoddwyd sgôr categori D iddo.

7.6 Roedd y data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion ar adeg arolygiad yn gynhwysfawr, yn ddarllenadwy ac yn rhwydd cael gafael arno, ac roedd gohebiaeth wedi'i hanfon mewn modd amserol yn dilyn arolygiadau.

7.7 Yn gyffredinol, roedd y sgoriau risg a roddwyd i safleoedd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiadau, ac roedd cofnodion ymyriadau yn dangos

bod swyddogion yn gwerthuso busnesau bwyd yn unol â bron pob agwedd ar ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

7.8 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig ar wahân ar gyfer cymeradwyo ac arolygu sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a oedd yn cynnwys cymhorthion cof i gynorthwyo swyddogion i gynnal arolygiadau cynhwysfawr. Roedd ffurflenni arolygu penodol i gynnyrch ar gael hefyd.

7.9 Yn ffeiliau'r chwe sefydliad cymeradwy a archwiliwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr holl ddogfennau angenrheidiol yn cael eu cynnal, gan gynnwys ffurflenni cais, dogfennau cymeradwyo, cynlluniau gosodiad, dogfennau HACCP, tystysgrifau hyfforddiant staff, siartiau proses a labelau cynnyrch. Roedd crynodeb ar gael ar flaen pob ffeil ac roedd gohebiaeth wedi'i ffeilio mewn trefn gronolegol, a oedd yn hwyluso cyfeirio.

7.10 Roedd ffeiliau'r sefydliadau cymeradwy a archwiliwyd yn dangos tystiolaeth fod arolygiadau cynhwysfawr wedi'u cynnal yn unol â'r amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.11 Er bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi mewn modd amserol yn gyffredinol, sylwodd yr archwilwyr fod sefydliad y rhoddwyd cymeradwyaeth amodol iddo i ddechrau, wedi cael gwybod yn ysgrifenedig ar ôl chwe mis nad oedd y safonau ar gyfer cymeradwyaeth lawn wedi'u cyflawni. Rhoddwyd mwy o amser i'r busnes gydymffurfio. Er y cafodd y sefydliad ei fonitro'n ofalus, mae hyn yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhoddwyd cymeradwyaeth lawn i'r sefydliad wedi hynny yn dilyn arolygiad arall.

7.12 Roedd yr awdurdod wedi cyhoeddi rhanddirymiadau yn ymwneud â samplu cig amrwd yn ficrobiolegol trwy ysgrifennu at weithredwyr busnes bwyd, yn ôl-weithredol.

7.13 Roedd y Weithdrefn Ymyriadau ac Ailymweliadau yn datgan y byddai ailymweliadau'n cael eu cynnal â sefydliadau bwyd os oedd hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi neu os nad oedd y sefydliad yn cydymffurfio'n fras. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau o gronfa ddata'r safle bod ailymweliadau wedi'u cynnal yn unol â'r weithdrefn.

7.14 Roedd yr awdurdod wedi datblygu rhaglen ffurfiol o strategaethau gorfodi eraill ar gyfer busnesau bwyd categori E yn ddiweddar. Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â deg safle a fu'n destun strategaethau gorfodi eraill. Roedd delweddau wedi'u sganio o'r holiaduron a ddefnyddiwyd fel rhan o'r strategaeth orfodi arall ar gael yn ffeiliau'r safleoedd mewn wyth achos, ac felly roedd yn rhwydd cael gafael arnynt. Mewn saith achos,

nid oedd y swyddog a oedd yn cyflawni'r ymyriad wedi'i awdurdodi'n briodol ac nid oedd tystiolaeth fod y wybodaeth a gafwyd wedi'i hadolygu gan swyddog â chymwysterau ac awdurdodiad priodol. Roedd naw o'r safleoedd wedi cael sgôr risg yn seiliedig ar y strategaeth orfodi arall yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd ymyriadau wedi'u cynnal yn unol â'r amlder sy'n ofynnol mewn wyth safle. Roedd cyfnodau o rhwng 42 mis a 13 blynedd wedi mynd heibio ers yr ymyriad blaenorol. Mae'r Cod Ymarfer yn mynnu bod safleoedd risg isel, categori E yn destun ymyriad bob 3 blynedd.

7.15 Roedd adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad yn cadarnhau bod yr awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg o ran ei raglen ymyriadau. Roedd 64 ymyriad hylendid bwyd yn hwyr, fel a ganlyn:

***Ymyriadau hylendid bwyd hwyr:***

| Categori risg safleoedd | Nifer y safleoedd |
|---|---|
| A | 0 |
| B | 1 |
| C | 13 |
| D | 32 |
| E | 10 |
| Heb eu Sgorio | 8 |
| **Cyfanswm** | **64** |

***Argymhellion***

7.16 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau mewn safleoedd bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.17 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes bwyd gyda'r un swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad hylendid bwyd diwethaf o'r safle. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiad busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.18 Roedd yn amlwg bod gan y swyddog lawer o wybodaeth am y safle, a dangosodd ddealltwriaeth o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau yn y safle. Yn gyffredinol, roedd y swyddog wedi cynnal arolygiad trylwyr ac wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol.

***Safonau Bwyd***

7.19 Yn 2011/12, roedd yr awdurdod wedi adrodd trwy LAEMS bod 78.95% o ymyriadau y dylid bod wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnal ar gyfer busnesau bwyd risg uchel, 76.8% ar gyfer busnesau bwyd risg ganolig a 93.67% ar gyfer busnesau bwyd risg isel. Nid oedd hyn yn gyson â'r wybodaeth a roddwyd yng Nghynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.

7.20 Roedd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2012/13 yn datgan bod 761 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun ymyriadau safonau bwyd ac y disgwyliwyd i 549 ohonynt gael arolygiad yn 2012/13. Roedd yr awdurdod wedi adrodd trwy LAEMS bod 996 o safleoedd yn destun ymyriadau safonau bwyd ar 31 Mawrth 2012.

7.21 Amlinellwyd y rhaglen ymyriadau safonau bwyd ar gyfer busnesau bwyd risg uchel a chanolig yng Nghynllun Darparu'r Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu ar gyfer 2012/13:

***Rhaglen ymyriadau safonau bwyd 2012/13:***

| Categori risg safleoedd | Nifer y safleoedd |
|---|---|
| Uchel (A) | 16 |
| Canolig (B) | 202 |
| **Cyfanswm** | **218** |

7.22 Dylid adolygu'r anghysondebau yn y data safonau bwyd yr adroddwyd arno yng Nghynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd, Cynllun y Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu a LAEMS er mwyn sicrhau bod data cyson yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

7.23 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer arolygiadau safonau bwyd yn ddiweddar, ond nid oedd ganddo bolisi na gweithdrefnau ar ddefnyddio strategaethau gorfodi eraill.

7.24 Archwiliwyd ffeiliau pum safle a fu'n destun arolygiad. Nid oedd yn bosibl cadarnhau nac asesu cwmpas ymyriadau na bod arolygiadau ac ymyriadau priodol yn cael eu cynnal ym mhob achos oherwydd nid oedd cofnodion digon manwl yn cael eu cadw gan swyddogion yn eu llyfrau nodiadau a/neu ar y gronfa ddata. Yn ogystal, nid oedd yr awdurdod yn

gallu dangos o’r cofnodion a oedd ar gael bod pob agwedd ar reolaethau swyddogol wedi’u hystyried yn ystod arolygiadau na bod camau priodol wedi’u cymryd yn dilyn arolygiadau. Nid oedd y wybodaeth a gofnodwyd yn ddigon manwl i gynorthwyo i lywio:

- Arolygiadau dilynol
- Dull graddoledig a chyson o orfodi
- Monitro mewnol effeithiol

7.25 Roedd absenoldeb gwybodaeth ac amrywiad yng nghynnwys cofnodion yn golygu ei bod yn anodd pennu’r sail ar gyfer dyrannu sgoriau risg safleoedd. Nodwyd hefyd nad oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddiwyd yn cymharu â hwnnw yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd o ran y ffactorau unigol a ystyriwyd i lywio’r sgôr.

7.26 Roedd gweithredwyr busnes bwyd wedi cael adroddiadau copi carbon mewn llawysgrifen o ffurflenni ymweliad ar ôl arolygiadau. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn rhestru tramgwyddau a’r mesurau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth, ond nid oeddent yn dangos cwmpas yr arolygiad nac yn gwahaniaethu’n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Yn ogystal, ni roddwyd arwydd i fusnesau bwyd o raddfeydd amser ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth.

7.27 Nid oedd gan yr awdurdod bolisi ar ailymweliadau safonau bwyd.

7.28 Ar adeg yr archwiliad, adroddodd yr awdurdod fod 125 o ymyriadau safonau bwyd yn hwyr, ac o’r rhain, bod dau yn rhai risg uchel, 100 yn rhai risg ganolig a 23 yn rhai risg isel.

***Argymhellion***

7.29 Dylai’r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau mewn safleoedd bwyd yn cael eu cynnal yn unol â’r amlder a fynnir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Dylid rhoi blaenoriaeth i sefydliadau risg uchel nad ydynt wedi’u harolygu yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau mewn sefydliadau bwyd yn unol â deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a’r Canllawiau Ymarfer cysylltiedig, gan gynnwys defnyddio ffurflenni arolygu priodol. [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth busnesau bwyd â’r safonau a ragnodwyd yn

| | |
|---|---|
| | gyfreithiol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.3] |
| (iv) | Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau y mae'n eu cyflawni. [Y Safon – 7.4] |

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.30 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes bwyd gyda'r un swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad safonau bwyd diwethaf o'r safle. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiad busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.31 Roedd y swyddog yn wybodus ynglŷn â'r safle a'r gweithrediadau a gynhaliwyd. Er ei bod yn amlwg bod y swyddog yn gymwys i gynnal arolygiad safonau bwyd trylwyr, nid oedd cofnodion yr arolygiad yn ddigon manwl i allu canfod cwmpas yr arolygiad na chadarnhau bod arolygiad trylwyr wedi'i gynnal. Roedd hyn yn gyson â chanfyddiadau'r archwiliad o ffeiliau.

## 8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd

8.1 Roedd Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer 2012/13 yn datgan mai polisi'r awdurdod oedd ymchwilio i bob cwyn ynglŷn â bwyd a safleoedd bwyd a oedd yn cael ei dwyn i'w sylw a phennu'r camau mwyaf priodol i'w cymryd.

8.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Gweithdrefn Gwyno ar gyfer Diogelwch Bwyd a Gweithdrefn Gwyno ar gyfer Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Roedd y gweithdrefnau'n fanwl ond nid oeddent yn cynnwys cyfeiriad at fwyd sy'n tarddu o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd nac at weithdrefn yr awdurdod ar gyfer ymchwilio i salwch a gludir gan fwyd. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd Anifeiliaid a Bwyd yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi a gweithdrefn cofnodedig o ran cwynion am fwyd sy'n tarddu o fewn y Deyrnas Unedig, a'r bwydydd hynny sy'n tarddu o aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd, neu o drydedd wlad.

8.3 Roedd swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod cwynion yn cael eu hateb o fewn tri diwrnod gwaith.

8.4 Archwiliwyd cofnodion pum cwyn hylendid bwyd/safle bwyd a chwe chŵyn safonau bwyd.

8.5 Ymatebwyd i bob un o'r 11 cwyn a archwiliwyd o fewn y raddfa amser darged o dri diwrnod gwaith, roedd ymchwiliadau cynhwysfawr wedi'u cynnal ac roedd camau wedi'u cymryd o ganlyniad i'r canfyddiadau. Roedd tystiolaeth fod materion Prif Awdurdod/Awdurdod Cartref wedi'u hystyried a bod achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau.

8.6 Roedd cofnodion cynhwysfawr o gwynion a oedd yn rhwydd cael gafael arnynt yn cael eu cadw ar y gronfa ddata safleoedd bwyd.

8.7 Roedd tystiolaeth fod cwynion wedi bod yn destun gwaith monitro mewnol ansoddol a meintiol.

***Argymhelliad***

8.8 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu ei weithdrefn gwyno i gynnwys canllawiau i swyddogion ar drin bwyd sy'n tarddu o du allan i'r Undeb Ewropeaidd. Dylai'r weithdrefn hefyd gyfeirio at weithdrefn yr awdurdod ar gyfer ymchwilio i achosion o

salwch a gludir gan fwyd [Y Safon – 8.1]

## 9 Cynllun y Prif Awdurdod a'r Egwyddor Awdurdod Cartref

9.1 Roedd Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer 2012/13 yn datgan bod Adran Amddiffyn y Cyhoedd yr awdurdod wedi, "mabwysiadu Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS" a'i fod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar gyfer naw busnes. Roedd hyn wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.

9.2 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol. Fodd bynnag, roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn ystod yr archwiliad yn dangos bod yr awdurdod yn gweithredu'r Egwyddor Awdurdod Cartref yn effeithiol o ran materion safonau bwyd, a'i fod yn ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan fusnesau ac awdurdodau eraill.

9.3 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw bartneriaethau Prif Awdurdod â busnesau, er y dywedwyd wrth yr archwilwyr bod cwmni wedi cysylltu ag ef yn ddiweddar gan fynegi diddordeb mewn datblygu partneriaeth. Roedd yr awdurdod yn archwilio goblygiadau ac effaith debygol hyn.

9.4 Roedd swyddogion yn gallu cael mynediad at wefan y Prif Awdurdod a chronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS, ac felly gallent ganfod cysylltiadau awdurdodau lleol, Prif Awdurdodau ac Awdurdodau Cartref.

9.5 Roedd sawl un o weithdrefnau gwaith yr awdurdod yn cyfeirio at faterion Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref. Roedd y ffeiliau a wiriwyd yn cadarnhau bod swyddogion yn ystyried canllawiau Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref wrth ymdrin â busnesau bwyd.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor a chymorth i fusnesau bwyd.

10.2 Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid a ganiatawyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gefnogi'r broses o gyflawni amcanion a rennir.

10.3 Dangosodd yr awdurdod ei ymrwymiad i gynorthwyo busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith drwy gyflawni nifer o fentrau, gan gynnwys:

- Cyngor a hyfforddiant ar HACCP;
- Darparu gwybodaeth a chyngor ar wefan yr awdurdod;
- Ymgyrch bostio uniongyrchol i fusnesau perthnasol ar Ganllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar Reoli Croeshalogi *E. coli* O157 ac Atal Listeriosis mewn Ysbytai a Chartrefi Nyrsio/Gofal;
- Cyngor i fusnesau sydd newydd eu cofrestru ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd;
- Gweithdai 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell';
- Cyngor technegol i fusnesau y mae'r awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar eu cyfer

## 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd

11.1 Roedd yr awdurdod yn gweithredu system cronfa ddata gyfrifiadurol a oedd yn gallu darparu'r manylion sy'n ofynnol ar gyfer LAEMS. Cyflwynwyd y manylion gan Brif Swyddogion gyda chymorth gan y Swyddog Cymorth Busnes. Cynhaliwyd gwiriadau amrywiol ar y data ar gyfer ffurflen LAEMS cyn ei chyflwyno i'r Asiantaeth.

11.2 Roedd Gweinyddwr y System yn gyfrifol am greu cyfrifon defnyddiwr, cyfrineiriau a phennu lefelau diogelwch ar gyfer y gronfa ddata.

11.3 Roedd gweithdrefnau cofnodedig wedi'u datblygu a'u gweithredu gyda'r nod o gynnal cywirdeb a chyflawnrwydd y gronfa ddata, ac roeddent yn cynnwys gofynion ar gyfer mewnbynnu, diwygio a dileu data. Yn ymarferol, roedd swyddogion yn diweddaru cofnodion ar ôl ymyriadau ac arsylwadau. Roedd cofnodion yn cael eu diweddaru hefyd ar ôl derbyn gwybodaeth, fel cwynion.

11.4 Dewisodd yr archwilwyr 10 busnes bwyd ar hap o'r rhyngrwyd a oedd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod. Roedd pob un o'r 10 busnes wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata ac wedi'u cynnwys yn rhaglenni ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd cynlluniedig yr awdurdod.

## 12 Arolygu a Samplu Bwyd

12.1 Roedd Cynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd ar gyfer 2012/13 yn datgan bod ei raglenni samplu ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd yn cynnwys mentrau lleol a chenedlaethol, ac y byddai samplau'n cael eu casglu o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd lleol ac mewn ymateb i gwynion.

12.2 Roedd y rhaglen samplu hylendid bwyd flynyddol yn cynnwys cymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru. Roedd y rhaglen samplu safonau bwyd wedi'i datblygu mewn cysylltiad â Grŵp Morgannwg.

12.3 Roedd yr awdurdod wedi dechrau cyflwyno canlyniadau'n ddiweddar i gronfa ddata samplau System Arolygu Bwyd y DU.

12.4 Roedd yr awdurdod wedi llofnodi Cytundeb ar gyfer Darparu Gwasanaethau Microbiolegol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi penodi ei Ddadansoddwyr Cyhoeddus yn ffurfiol.

12.5 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod ar gyfer archwilio samplau bwyd wedi'u hachredu'n briodol ac roeddent ar y rhestr Labordai Swyddogol yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

12.6 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau samplu cofnodedig a rhaglenni samplu blynyddol.

12.7 Roedd Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd 2012/13 yn datgan bod 148 o samplau microbiolegol wedi'u cymryd i'w dadansoddi yn 2011/12 a bod hyn yn ddangosydd ar gyfer nifer y samplau a fyddai'n cael eu cymryd yn 2012/13. Roedd Cynllun y Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu yn datgan y byddai 49 sampl safonau bwyd yn cael eu cymryd yn 2012/13.

12.8 Archwiliwyd cofnodion chwe sampl hylendid bwyd a chwe sampl safonau bwyd. Ym mhob achos, roedd yn eglur pwy a gymerodd y sampl, roedd y canlyniadau samplu wedi'u cadw yn y ffeil, roedd gweithredwyr busnes bwyd wedi cael gwybod am y canlyniadau ac roedd camau priodol wedi'u cymryd mewn ymateb i samplau anfoddhaol.

12.9 Yn ogystal, lle y canfuwyd bod canlyniadau sampl ficrobiolegol yn ymylol, roedd yr awdurdod wedi gwneud gwaith dilynol ac wedi amlygu'r materion gyda gweithredwyr busnes bwyd er mwyn cyflawni gwelliannau. Roedd cofnodion yn dangos bod cyngor priodol wedi'i roi.

12.10 Ar adeg yr archwiliad, roedd nifer y samplau a gymerwyd yn cyfateb i'r rhaglenni samplu bwyd cynlluniedig.

**Arfer Da – Camau yn dilyn canlyniadau samplu ffiniol**

Mae rhoi cyngor i weithredwyr busnesau bwyd ar ôl i ganlyniadau samplu microbiolegol ffiniol ddod i law wedi'i nodi fel maes o arfer da.

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd yr awdurdod wedi dynodi swyddog arweiniol ar gyfer clefydau trosglwyddadwy a oedd wedi mynychu digwyddiadau fel rhan o Raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.

13.2 Roedd gan yr awdurdod Gynllun Rheoli Achosion a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan grŵp amlasiantaethol a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

13.3 Ni fu unrhyw achosion o haint cysylltiedig â bwyd yn ardal yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

13.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Gweithdrefn Hysbysu am Glefydau Trosglwyddadwy gynhwysfawr. Ategwyd y weithdrefn gan ystod eang o ddogfennau canllaw a chymorth cof. Nid oedd y weithdrefn yn cyfeirio at y gwasanaeth ffurfiol y tu allan i oriau swyddfa a ddarparwyd gan yr awdurdod i ymdrin ag argyfyngau.

13.5 Archwiliwyd hysbysiadau yn ymwneud â chwe achos achlysurol o glefydau heintus cysylltiedig â bwyd. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac yn rhwydd cael gafael arnynt. Fodd bynnag, mewn un achos, nid oedd yr holiadur cywir wedi'i ddefnyddio i gofnodi gwybodaeth, er bod yr archwilwyr wedi nodi bod gwybodaeth ddigonol wedi'i chofnodi. Ymatebwyd i ddau achos y tu allan i amser ymateb targed Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer hysbysu. Roedd cyngor anghywir ar ddychwelyd i'r gwaith wedi'i roi mewn un achos. Mewn achos arall, roedd absenoldeb gwybodaeth achos allweddol yn dangos bod yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn annigonol, ac mewn un arall, ni chymerwyd camau i olrhain holiadur post nad oedd wedi'i ddychwelyd.

***Argymhelliad***

13.6 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod y Weithdrefn Hysbysu am Glefydau Trosglwyddadwy yn cyfeirio at y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o heintiau cysylltiedig â bwyd y tu allan i oriau swyddfa, a bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau. [Y Safon – 13.2]

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr awdurdod Weithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd gofnodedig. Roedd y weithdrefn yn manylu ar sut yr oedd yr awdurdod yn ymateb i ddigwyddiadau bwyd, rhybuddion bwyd – angen gweithredu, hysbysiadau tynnu cynnyrch yn ôl a hysbysiadau galw cynnyrch yn ôl, gan gynnwys y rhai hynny a dderbyniwyd y tu allan i oriau swyddfa arferol.

14.2 Roedd Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yn bennaf gyfrifol am gychwyn a chydlynu ymateb yr awdurdod. Roedd trefniadau wedi'u sefydlu iddynt dderbyn hysbysiadau ar eu ffonau symudol y tu allan i oriau swyddfa.

14.3 Roedd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau'r awdurdod ar gyfer rhybuddio'r Asiantaeth Safonau Bwyd pe byddai perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn cael ei amlygu'n lleol.

14.4 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn gallu derbyn hysbysiadau. Roedd y weithdrefn yn cynnwys gofyniad ar gyfer cofnodi hysbysiadau a chamau a gymerwyd ar gronfa ddata safleoedd bwyd yr awdurdod at ddibenion archwilio a gwaith dilynol posibl.

14.5 Edrychodd yr archwilwyr ar bum rhybudd bwyd a roddwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Derbyniwyd a gweithredwyd ar bob un yn brydlon yn unol â chyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd yr ymatebion wedi'u cofnodi.

14.6 Ni fu unrhyw ddigwyddiadau lleol difrifol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

## 15 Gorfodi

15.1 Roedd yr awdurdod yn gallu dangos dull graddoledig o orfodi hylendid bwyd ac roedd wedi defnyddio ystod o ddewisiadau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith diogelwch bwyd.

15.2 Roedd Polisi Cydymffurfio a Gorfodi trosgynnol wedi'i ddatblygu gan yr adran Amddiffyn y Cyhoedd, a ategwyd gan Bolisi Gorfodi Diogelwch Bwyd a gymeradwywyd gan Gabinet yr awdurdod ym mis Ebrill 2010. Roedd y Polisïau wedi'u seilio ar egwyddorion arweiniol cysondeb, tegwch, cymesuroldeb, tryloywder a gwrthrychedd. Sylwodd yr archwilwyr nad oedd Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd yr awdurdod yn cyfeirio at roi Hysbysiadau Gweithredu Adferol. Roedd y Polisïau ar gael i fusnesau bwyd a'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

15.3 Ar adeg yr archwiliad, roedd yr awdurdod yn adolygu ei Bolisïau Gorfodi er mwyn ystyried deddfwriaeth a chanllawiau mwy diweddar e.e. ystyriaethau Prif Awdurdod a defnyddio Hysbysiadau Gweithredu Adferol. Disgwyliwyd i hyn gael ei ystyried gan y Cabinet.

15.4 Roedd gweithdrefnau gorfodi wedi'u datblygu ond nid oeddent yn ymdrin â'r ystod gyfan o ddewisiadau gorfodi a oedd ar gael i swyddogion.

15.5 Roedd Gweithdrefn Prosesu Troseddau wedi'i datblygu i roi arweiniad i'r staff ar gasglu a phrosesu adroddiadau ar droseddau. Roedd y Weithdrefn ar Ymchwilio ac Adrodd ar Dramgwyddau, y cyfeiriwyd ati yn y Weithdrefn Prosesu Troseddau, yn cael ei datblygu.

15.6 Nid oedd polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod yn cyfeirio at y dull i'w ddefnyddio gan swyddogion mewn achosion lle y canfyddid diffyg cydymffurfio mewn safleoedd yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn weithredwr busnes bwyd ar eu cyfer.

15.7 Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn ystod yr archwiliad yn cadarnhau bod swyddogion yn y gwasanaeth hylendid bwyd yn defnyddio ystod eang o ddewisiadau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys llythyrau, Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Gweithredu Adferol, cau busnesau bwyd yn wirfoddol, ildio bwyd yn wirfoddol, rhybuddion syml ac erlyniadau.

15.8 Yn y dogfennau a gyflwynwyd cyn yr archwiliad, adroddodd yr awdurdod nad oedd wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol o ran safonau bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

15.9 Archwiliwyd cofnodion pum Hysbysiad Gwella Hylendid, dau Hysbysiad Gweithredu Adferol, un atafaeliad, dau achos o ildio gwirfoddol, wyth achos o gau gwirfoddol, un rhybudd syml a thri erlyniad. Fe'u gwiriwyd yn unol â chanllawiau swyddogol, a gweithdrefnau cofnodedig a pholisi gorfodi'r awdurdod.

15.10 Roedd Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi'u rhoi gan swyddogion a oedd wedi'u hawdurdodi'n gywir ac a oedd wedi gweld yr achosion o dorri'r rheolau. Roedd yr hysbysiadau'n eglur ac yn rhwydd eu deall, ac roeddent yn cynnwys terfynau amser ar gyfer cydymffurfio. Mewn un o'r pum hysbysiad, nid oedd tystiolaeth fod gwybodaeth am yr hawl i apelio ac enw a chyfeiriad y llys perthnasol wedi'u darparu. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth o gyflwyno priodol ar gael mewn dau o'r pum achos. Ym mhob achos, roedd ymweliadau dilynol amserol wedi'u cynnal i gadarnhau y cydymffurfiwyd â'r hysbysiadau. Fodd bynnag, mewn pedwar o'r pum achos, nid oedd swyddogion wedi cadarnhau yn ysgrifenedig bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol, yn groes i Ganllawiau'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Amlygwyd nad oedd hyn wedi'i gynnwys fel gofyniad yng ngweithdrefn gofnodedig yr awdurdod.

15.11 Archwiliwyd cofnodion dau Hysbysiad Gweithredu Adferol. Rhoddwyd y rhain o dan amgylchiadau priodol ac roeddent wedi'u llunio'n eglur. Fodd bynnag, roedd un o'r hysbysiadau nad oedd wedi'i roi i'r gweithredwr busnes bwyd cywir. Yn ogystal, nid oedd cyfeiriad y llys wedi'i ddarparu gyda'r hysbysiad at ddiben apelio, ac nid oedd tystiolaeth ar gael o gyflwyno priodol.

15.12 Archwiliwyd cofnodion dau achos o ildio bwyd yn wirfoddol. Yn y ddau achos, dyma oedd y cam priodol i'w gymryd. Mewn un achos, nid oedd yr amser, y lleoliad a'r dull dinistrio wedi'u cofnodi ac nid oedd cofnod ar gael o ddinistrio. Yn yr ail achos, nid oedd gwybodaeth wedi'i chadw ar ffeil i ddangos sut y triniwyd y bwyd i'w atal rhag dychwelyd i'r gadwyn fwyd. Yn y ddau achos, nid oedd tystiolaeth fod derbynneb wedi'i rhoi ar gyfer ildio'r bwyd yn wirfoddol.

15.13 Archwiliwyd cofnod un achos o atafaelu bwyd yn ffurfiol. Atafaeliad oedd y cam priodol i'w gymryd ac fe'i cadarnhawyd yn ysgrifenedig. Roedd perchennog y bwyd wedi cael gwybod am y gwrandawiad a chyflwynwyd y mater gerbron ynad o fewn dau ddiwrnod. Nid oedd y dderbynneb ar gyfer y bwyd yn cofnodi'r amser, y lleoliad a'r dull dinistrio, ac nid oedd y dyddiadau a gofnodwyd ar gronfa ddata safleoedd yr awdurdod yn gyson â'r wybodaeth ar gopi caled yr hysbysiad.

15.14 Archwiliwyd cofnodion wyth safle bwyd a gytunodd i gau'n wirfoddol. Ym mhob achos, dyma oedd y cam priodol i'w gymryd ac fe'i cytunwyd yn

ysgrifenedig gyda'r gweithredwr busnes bwyd. Roedd ymweliadau dilynol wedi'u cynnal a chamau priodol wedi'u cymryd, ac ni fu unrhyw achos o dorri cytundebau cau'n wirfoddol.

15.15 Roedd y Rhybudd Syml wedi'i awdurdodi gan swyddog a chanddo'r pwerau dirprwyedig priodol ac fe'i rhoddwyd yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd y cofnodion yn annigonol i ddangos bod Polisi Gorfodi'r awdurdod wedi'i ystyried yn briodol ar ôl i'r penderfyniad cychwynnol gael ei newid o erlyn.

15.16 Roedd erlyniadau wedi'u hawdurdodi gan Brif Weithredwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio'r awdurdod, ac roedd ganddo'r pwerau dirprwyedig angenrheidiol. Roedd pob achos wedi'i symud ymlaen mewn modd amserol, roedd ffeiliau achos wedi'u paratoi a chofnodion cronfa ddata manwl wedi'u cynnal o ran cynnydd yr erlyniadau. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn gynhwysfawr wedi'i sefydlu a oedd yn ymdrin â phob agwedd ar ymgymryd ag erlyniad. Roedd y Weithdrefn ar Ymchwilio ac Adrodd ar Dramgwyddau y cyfeiriwyd ati yn y Weithdrefn Prosesu Troseddau yn cael ei datblygu.

15.17 Roedd y cofnodion yn dangos bod gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) wedi'u hystyried a'u cofnodi. Fodd bynnag, roedd y cofnodion yn annigonol i ddangos bod Polisi Gorfodi'r awdurdod neu ofynion Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) wedi'u hystyried.

15.18 Er bod camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu monitro'n fewnol a'u cofnodi, nid oedd hyn yn ystyried holl ofynion perthnasol canllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

***Argymhellion***

15.19 Dylai'r awdurdod:

(i) Gwblhau'r adolygiad o'i Bolisi Gorfodi gan sicrhau ei fod yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]

(iii) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith bwyd yn cael eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisi gorfodi a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.3 a 15.4]

## 16 Cofnodion ac Ymyriadau / Adroddiadau Arolygu

### *Hylendid Bwyd*

16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd a manylion ymyriadau yn ymwneud â'r busnesau hynny'n cael eu cadw yn system gyfrifiadurol yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd ar gyfer rheoli data a gwybodaeth. Roeddent yn cael eu cadw ar ffurf copi caled mewn rhai achosion hefyd.

16.2 Roedd cofnodion ymyriadau busnesau bwyd, gan gynnwys y rhai hynny a oedd yn ddarostyngedig i reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, yn gynhwysfawr, wedi'u cynnal yn dda ac yn rhwydd cael gafael arnynt. Roedd copïau o adroddiadau arolygu, canlyniadau samplu, cwynion am fusnesau bwyd a dogfennau cymeradwyo'n cael eu cynnal yn foddhaol. Nid oedd dogfennau cofrestru busnes bwyd a holiaduron mewn perthynas â strategaethau gorfodi eraill ar gael yn gyson.

16.3 Roedd cofnodion arolygiadau'n cynnwys disgrifiad o'r busnes a'r gweithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau'r arolygiad, sgoriau risg, asesiadau cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chamau gorfodi. Nid oedd bob amser yn eglur o'r cofnodion ymyriadau a oedd swyddogion wedi ystyried pob agwedd ar ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog neu wedi ystyried asesu pa mor briodol oedd gweithdrefnau'r busnes. At hynny, canfuwyd nad oedd y sgoriau risg ar y gronfa ddata safleoedd, mewn rhai achosion, yn cyd-fynd â'r sgoriau risg ar y cofnodion copi caled.

16.4 Anfonwyd llythyrau at y gweithredwr busnes bwyd ar ôl pob arolygiad ac, yn gyffredinol, roeddent yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd graddfeydd amser ar gyfer cwblhau gwaith adferol wedi'u cynnwys yn gyson mewn gohebiaeth, ac roedd enghreifftiau lle'r oedd manylion y derbynnydd yn wahanol i'r rhai hynny a nodwyd ar y ffurflen cofrestru busnes bwyd. Nid oedd copïau o lythyrau bob amser yn cael eu hanfon i brif swyddfa'r busnes bwyd.

16.5 Roedd achosion o dorri'r rheolau wedi'u geirio'n eglur ac roedd y camau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth wedi'u rhestru. Gwahaniaethwyd yn eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da.

16.6 Roedd gohebiaeth ar ôl arolygiad yn cael ei chysylltu â'r gronfa ddata busnesau bwyd neu'n cael ei chadw ar ffurf copi caled.

16.7 Roedd cofnodion ailymweliadau â busnesau bwyd i wirio cydymffurfiaeth yn cael eu cadw yn ffeiliau'r safle.

16.8 Roedd cofnodion yn ymwneud â busnesau bwyd, ac eithrio ffurflenni cofrestru, wedi'u cadw am chwe blynedd.

***Argymhelliad***

16.9 Dylai'r awdurdod:

(i) Gynnal cofnodion cyfredol, cywir a chynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 16.1]

***Safonau Bwyd***

16.10 Yn gyffredinol, roedd cofnodion safonau bwyd yn ymwneud â gwaith adweithiol yn gynhwysfawr, wedi'u cynnal yn dda ac yn rhwydd cael gafael arnynt.

16.11 Archwiliwyd cofnodion pum busnes bwyd a fu'n destun arolygiad yn ôl yr awdurdod. Nid oedd cofnodion arolygu ar gael ar gyfer un o'r safleoedd. O ymchwilio ymhellach, canfuwyd nad oedd y busnes wedi cael ei arolygu, ond y cysylltwyd ag ef dros y ffôn. Roedd y sgôr risg a roddwyd i'r busnes wedi'i throsglwyddo o'r safle y bu'n ei feddiannu'n flaenorol, nad oedd yn briodol. Yn gyffredinol, roedd cynnwys cofnodion arolygu'n amrywio, ac nid oeddent yn ddigon manwl i gadarnhau bod asesiad effeithiol wedi'i gynnal o gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, nac i bennu'r sail ar gyfer dyrannu sgoriau risg safleoedd. Felly, byddai'n anodd i swyddog arolygu a oedd yn anghyfarwydd â'r busnes gadarnhau ei hanes cydymffurfio llawn a llywio dull graddoledig o orfodi.

16.12 Nid oedd cofnodion safle cynhwysfawr o ran safonau bwyd bob amser yn rhwydd cael gafael arnynt, ac nid oedd swyddogion yn dilyn dull cyson o gadw cofnodion.

16.13 Roedd y cod anghywir wedi'i gofnodi ar y gronfa ddata ar gyfer pump o'r 10 ymyriad safonau bwyd e.e. roedd ymyriadau nad oeddent yn arolygiadau wedi'u cofnodi fel arolygiadau.

***Argymhellion***

16.14 Dylai'r awdurdod:

(i) Gynnal cofnodion cyfredol, cywir a hygyrch ar gyfer pob sefydliad bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a

gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad, penderfyniadau a wnaed gan y swyddog ynghylch cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a manylion camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]

(ii) Sicrhau bod cofnodion ymyriadau safonau bwyd a manylion allweddol am weithrediadau busnes yn cael eu cadw mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn rhwydd cael gafael arnynt a'u bod ar gael am 6 blynedd. [Y Safon – 16.2]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr awdurdod wedi sefydlu, gweithredu a chyhoeddi Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol dri cham a oedd yn cynnwys camau anffurfiol, ffurfiol ac adolygu. Roedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn ei ran benodol ar wefan yr awdurdod.

17.2 Nid oedd yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd yn cofnodi pob cwyn anffurfiol fel mater o drefn. Fodd bynnag, roedd y staff wedi'u grymuso i ymchwilio iddynt a'u datrys lle y bo'n bosibl. Er bod y dull hwn yn unol â Gweithdrefn Gwyno'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, nid yw'n gyson â gofynion y Cytundeb Fframwaith, sy'n mynnu bod cofnod yn cael ei wneud o bob cwyn a dderbynnir a'r camau a gymerir gan yr awdurdod mewn ymateb iddynt.

17.3 Rhoddwyd enghreifftiau i'r archwilwyr o ymatebion ysgrifenedig i bedair cwyn anffurfiol yr oedd angen ymateb iddynt yn ysgrifenedig. Roedd yn amlwg yr ymchwiliwyd iddynt yn iawn a bod ymatebion priodol wedi'u rhoi.

17.4 Ni fu unrhyw gwynion ffurfiol yn erbyn gwasanaeth bwyd yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Argymhelliad***

17.5 Dylai'r awdurdod:

(i) Gofnodi pob cwyn a dderbynnir ynghyd â'r camau a gymerir mewn ymateb. [Y Safon – 17.3]

## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt wedi'u sefydlu ag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodi cyson. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn weithredol yn y canlynol:

- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru;
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Tasglu Diogelwch Bwyd De-orllewin Cymru;
- Grŵp Morgannwg;
- Tasglu Clefydau Trosglwyddadwy De-orllewin Cymru;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru

18.2 Roedd cofnodion ar gael o gyfarfodydd grwpiau cyswllt ac roeddent yn cadarnhau bod cynrychiolwyr priodol o'r gwasanaeth yn bresennol ynddynt yn rheolaidd.

18.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt gweithredol â'r canlynol hefyd:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Y Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd;
- Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru;
- Adrannau eraill yn yr awdurdod

18.4 Dywedwyd wrth yr archwilwyr y bu'r awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i archwilio cyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithredol. Roedd gorfodi safonau bwyd a hylendid bwyd wedi'u hamlygu fel meysydd posibl ar gyfer cydweithredu, ac roeddent yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn y trafodaethau hyn.

## 19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd yr awdurdod wedi llunio gweithdrefnau monitro mewnol cynhwysfawr ar gyfer safonau bwyd a hylendid bwyd, a oedd yn ymdrin ag agweddau meintiol ac ansoddol ar y gwasanaeth. Adolygwyd y rhain yn ddiweddar i gynnwys pob agwedd ar y Cytundeb Fframwaith. Nid oeddent wedi'u gweithredu'n llawn ar adeg yr archwiliad.

19.2 Prif Swyddogion oedd yn bennaf gyfrifol am fonitro mewnol, gyda chymorth yr Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r Swyddog Masnach Deg a oedd yn arweinydd technegol ar gyfer safonau bwyd.

19.3 Roedd y gwaith monitro ansoddol a wnaed o ran hylendid bwyd yn cynnwys:

- Arolygon bodlonrwydd cleientiaid;
- Cyfarfodydd tîm;
- Arfarnu staff;
- Adolygiadau gwaith un-i-un;
- Monitro ymyriadau a sgoriau risg o ran cysondeb;
- Monitro ansawdd hysbysiadau ac adroddiadau erlyn;
- Asesu swyddogion newydd a swyddogion sydd newydd gymhwyso

19.4 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod ansawdd gweithgareddau hylendid bwyd yn cael ei fonitro'n fewnol yn unol â'r weithdrefn yn gyffredinol, a bod cofnodion yn cael eu cynnal.

19.5 Ychydig o fonitro mewnol oedd wedi'i gynnal o ran ansawdd gwaith safonau bwyd, ac nid oedd llawer o dystiolaeth gofnodedig ar gael. Roedd hyn wedi'i amlygu gan yr awdurdod fel maes i'w wella.

19.6 Roedd y tîm cymorth busnes yn llunio adroddiadau misol ar berfformiad i reolwyr Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, a oedd yn cynnwys nifer yr ymyriadau busnesau bwyd a gynhaliwyd, nifer yr ymyriadau a oedd yn hwyr a manylion cwynion na ymatebwyd iddynt o fewn tri diwrnod gwaith.

19.7 Roedd gan yr awdurdod ddiwylliant cryf o ran rheoli perfformiad ac roedd uwch reolwyr a'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn ystyried adroddiadau monitro perfformiad bob tri mis.

19.8 Roedd adolygiadau perfformiad wedi'u cynnal, roedd anghenion hyfforddi wedi'u hamlygu ac roedd portffolios personol swyddogion yn cael eu cynnal.

19.9 O archwilio ffeiliau, gwelwyd bod swyddogion yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd o 'safleoedd problemus' gyda chydweithwyr yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth a sicrhau dull cyson o gynnal arolygiadau a chymhwyso sgoriau risg.

19.10 Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac yn cynorthwyo swyddogion i weithredu mewn ffordd gyson.

***Argymhelliad***

19.11 Dylai'r awdurdod:

(i) Weithredu'r gweithdrefnau monitro mewnol yn llawn a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd. [Y Safon – 19.1 a 19.3]

## 20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid

20.1 Nid oedd y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd wedi cymryd rhan mewn unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid nac wedi bod yn destun unrhyw archwiliadau gan drydydd parti yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

20.2 Roedd yr awdurdod wedi cael archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2010 a oedd yn canolbwyntio ar Reolaethau mewn Sefydliadau Cymeradwy.

**21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd**

21.1 Roedd yr awdurdod yn dangos ymrwymiad i hybu safonau a hylendid bwyd.

21.2 Roedd yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd wedi cychwyn neu gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo ac roedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer mwy o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Yr Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
- Y Criw Craff;
- Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol;
- Cynllun Ysgolion Iach Pen-y-bont ar Ogwr;
- Darparu gwybodaeth am safonau bwyd a hylendid bwyd ar wefan yr awdurdod

21.3 Roedd cofnodion am hyrwyddiadau safonau a diogelwch bwyd yn cael eu cadw mewn ffeil gan reolwyr gwasanaeth.

**Archwilwyr:**

**Archwilydd Arweiniol:** **Kate Thompson**
Archwilwyr: Alun Barnes
Craig Sewell

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

**Atodiad A**

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Dyddiad yr Archwiliad: 20 – 25 Mawrth 2013**

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| 3.16 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan gydymffurfio'n llawn â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1] | 1/4/2014 | Bydd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd 2014/15 yn cynnwys:<br>• Manylion o ran nifer/mathau o ymyriadau i'w cwblhau ym mhob un o fandiau risg busnes bwyd ar gyfer hylendid a safonau bwyd<br>• Dull yr Awdurdod o ymdrin â busnesau â sgôr risg isel ar gyfer safonau bwyd<br>• Trefniadau ar gyfer monitro safonau bwyd yn fewnol<br>• Amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr ystod lawn o weithgareddau gorfodi safonau bwyd statudol o'u cymharu â'r rheiny sydd ar gael | Mae rhai o'r manylion sydd eu hangen wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, derbynnir y dylai'r wybodaeth gael ei chynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd. |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| | | • A yw'r gost o ddarparu'r gwasanaeth yn gynnydd neu'n ostyngiad net ar gostau'r flwyddyn flaenorol | |
| 5.13 (i) Adolygu'r Cynllun Dirprwyo ac awdurdodiadau swyddogion i gynnwys darpariaethau priodol Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. [Y Safon – 5.1] | Wedi'i gwblhau | Mae'r cynllun dirprwyo ac awdurdodiadau swyddogion eisoes wedi'u diweddaru i gynnwys darpariaethau priodol Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. | |
| 5.13 (ii) Sicrhau bod contractwyr a staff dros dro yn cael eu hawdurdodi'n briodol o dan ddeddfwriaeth gyfredol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u cymhwysedd. [Y Safon – 5.3] | Wedi'i gwblhau | Sicrhau bod unrhyw staff dros dro neu staff contract yn cael eu hawdurdodi'n briodol – bydd y gofyniad hwn yn cael ei wneud yn eglur yn y weithdrefn awdurdodi.<br><br>Sicrhau bod swyddogion perthnasol wedi'u hawdurdodi i gynnal AES. | |
| 5.13 (iii) Sicrhau bod cofnodion cymwysterau a hyfforddiant perthnasol staff (gan gynnwys | Wedi'i gwblhau | Cadw cofnodion o hyfforddiant swyddogion, gan gynnwys cofnodion ar gyfer staff dros dro a | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| contractwyr) yn cael eu cadw ar ffeil. [Y Safon – 5.5] | | staff contract, ar ffeil. | |
| Hylendid Bwyd<br>7.16 (i) Sicrhau bod ymyriadau mewn safleoedd bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | 21/6/2013 | Cynnal ymyriadau mewn safleoedd bwyd yn unol â'r amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Roedd nifer y safleoedd nad ydynt yn destun ymyriad o fewn yr amlderau gofynnol yn fach iawn o'i gymharu â nifer y safleoedd yn y rhaglen arolygu. Yn gyffredinol, busnesau bwyd â sgôr risg isel oedd y rhain. |
| 7.16 (ii) Cynnal ymyriadau, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | 1/4/2014<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>1/4/2014 | • Briffio staff ar y weithdrefn gymeradwyo a gofynion y Cod Ymarfer o ran cymeradwyo'n amodol.<br><br>• Diwygio'r Weithdrefn Orfodi Amgen a hyfforddi staff i sicrhau nad yw safleoedd yn cael sgôr risg ar sail ymyriad gorfodi amgen.<br><br>• Sicrhau bod gwybodaeth a geir gan AES yn cael ei hadolygu gan swyddog sydd â'r cymwysterau a'r awdurdod priodol. Diwygio gweithdrefn AES yn unol â hynny. | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| Safonau Bwyd<br>7.29 (i) Sicrhau bod ymyriadau mewn safleoedd bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r amlder a fynnir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Dylid rhoi blaenoriaeth i sefydliadau risg uchel nad ydynt wedi'u harolygu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | 1/4/2014 | Darparu manylion am y rhaglen ymyriadau safonau bwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd 2014/15. Cynnydd yn erbyn y cynllun i fod yn destun monitro mewnol. Rhoi blaenoriaeth i fusnesau risg uwch. | |
| 7.29 (ii) Cynnal ymyriadau mewn sefydliadau bwyd yn unol â deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer cysylltiedig, gan gynnwys defnyddio ffurflenni arolygu priodol. [Y Safon – 7.2] | 1/4/2014 | Datblygu ffurflen Arolygu Safonau Bwyd ddiwygiedig a'i rhoi ar waith. Briffio staff ar sut i ddefnyddio'r ffurflen. | |
| 7.29 (iii) Asesu cydymffurfiaeth busnesau bwyd â'r safonau a ragnodwyd yn gyfreithiol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.3] | 30/6/2014 | Diwygio'r cynllun sgorio risg a hyfforddi staff i roi'r newidiadau ar waith. | |
| 7.29 (iv) Sefydlu, cynnal a | 1/4/2014 | Datblygu gweithdrefnau. Datblygu | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau y mae'n eu cyflawni. [Y Safon – 7.4] | | polisi a gweithdrefn orfodi amgen a gweithdrefn ailymweld. | |
| 8.8 (i) Adolygu ei weithdrefn gwyno i gynnwys canllawiau i swyddogion ar drin bwyd sy'n tarddu o du allan i'r Undeb Ewropeaidd. Dylai'r weithdrefn hefyd gyfeirio at weithdrefn yr awdurdod ar gyfer ymchwilio i achosion o salwch a gludir gan fwyd [Y Safon – 8.1] | Wedi'i gwblhau | Diwygio'r weithdrefn gwyno (bwyd) i gynnwys canllawiau ar fwyd sy'n tarddu o du allan i'r UE, gan gyfeirio at y weithdrefn ar ymchwilio i achosion o salwch a gludir gan fwyd. | |
| 13.6 (i) Sicrhau bod y Weithdrefn Hysbysu am Glefydau Trosglwyddadwy yn cyfeirio at y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o heintiau cysylltiedig â bwyd y tu allan i oriau swyddfa, a bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau. [Y Safon – 13.2] | Wedi'i gwblhau | Diwygio'r weithdrefn Hysbysu am Glefydau Trosglwyddadwy i gyfeirio at drefniadau y tu allan i oriau swyddfa. Hyfforddi staff er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. | |
| 15.19 (i) Cwblhau'r adolygiad o'i Bolisi Gorfodi gan sicrhau ei fod yn unol â'r Cod Ymarfer | | Llunio adolygiad terfynol o bolisi gorfodi a rhoi rhaglen hyfforddi staff ar waith. | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.1] | | | |
| 15.19 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | 1/3/2014 | Polisi gorfodi diwygiedig i gynnwys ystyriaethau'r Prif Awdurdod/Awdurdod Cartref, ac ymgorffori:<br>• Gweithdrefn ar gyfer delio â diffyg cydymffurfiaeth os mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r gweithredwr busnes bwyd<br>• Gofyniad i swyddogion roi gwybod yn ysgrifenedig bod camau wedi'u cwblhau i safon foddhaol i gydymffurfio â'r hysbysiadau<br>• Gweithdrefn ar gyfer RANS<br>• Gofyniad i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw am unrhyw fwyd sy'n cael ei atafaelu a/neu'i gadw, a hynny o ran amser derbyn, man derbyn a dull gwaredu | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| | | Datblygu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i droseddau a hysbysu amdanynt, gan ymgorffori gofyniad i greu cofnod o les y cyhoedd a phrofion tystiolaethol, polisi gorfodi a bod y weithdrefn wedi'i hystyried gan CPIA. | |
| 15.19 (iii) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith bwyd yn cael eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisi gorfodi a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.3 a 15.4] | 30/6/2014 | Datblygu a darparu hyfforddiant gweithdrefnau gorfodi ar gyfer staff, a chryfhau'r broses o fonitro gorfodi yn fewnol. | |
| Hylendid Bwyd<br>16.9 (i) Cynnal cofnodion cyfredol, cywir a chynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 16.1] | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>1/4/2014 | • Swyddogion i sicrhau bod manylion cofrestru busnesau bwyd yn gyfoes yn ystod ymyriadau.<br><br>• Atodi copïau o ffurflenni cofrestru newydd yn electronig i gofnod y safle ar APP.<br><br>• Monitro yn fewnol i sicrhau bod copïau caled a | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| | | chofnodion cronfa data yn gyson. | |
| | Wedi'i gwblhau | • Holiaduron AES i gael eu cadw ar ffeil neu'u sganio i gofnod y safle. | |
| | Wedi'i gwblhau | • Atgoffa swyddogion o'r gofyniad i gynnwys amserlenni ar ohebiaeth ar gyfer cwblhau gwaith adfer, ac anfon copi o'r ohebiaeth at y Brif Swyddfa fel y bo'n briodol. | |
| | 1/4/2014 | • Diwygio'r ffurflen arolygu fel bod swyddogion yn gallu dangos eu hasesiad o gydymffurfiaeth y busnes â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog yn well. | |
| | Wedi'i gwblhau | • Briffio swyddogion ar ofynion sy'n ymwneud â chofnodi gwybodaeth HACCP. | |
| | 1/4/2014 | • Cryfhau prosesau monitro | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| | | mewnol i sicrhau bod pob agwedd ar ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog sy'n mynnu gwerthusiad yn cael ei hadlewyrchu yng nghofnodion ymyriadau swyddogion. | |
| Safonau Bwyd<br>16.14 (i) Cynnal cofnodion cyfredol, cywir a hygyrch ar gyfer pob sefydliad bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad, penderfyniadau a wnaed gan y swyddog ynghylch cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a manylion camau a gymerwyd.<br>[Y Safon – 16.1] | Wedi'i gwblhau<br><br>1/4/2014 | • Hyfforddi swyddogion i sicrhau bod ymyriadau'n cael eu codio'n gywir yn y gronfa ddata.<br><br>• Adolygu a diwygio'r ffurflen arolygu i sicrhau bod swyddogion yn gallu dangos cwmpas yr ymyriadau, dull effeithiol o asesu cydymffurfiaeth, y sail dros roi sgôr risg a gwella cysondeb. | |
| 16.14 (ii) Sicrhau bod cofnodion ymyriadau safonau bwyd a manylion allweddol am weithrediadau busnes yn cael eu cadw mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn rhwydd cael | Wedi'i gwblhau | • Adolygu a newid y weithdrefn arolygu i gynnwys canllawiau i swyddogion ar sut a ble i storio/cadw cofnodion. | |

| ARGYMHELLION I FYND I'R AFAEL Â NHW (GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN |
|---|---|---|---|
| gafael arnynt a'u bod ar gael am 6 blynedd. [Y Safon – 16.2] | | | |
| 17.5 (i) Cofnodi pob cwyn a dderbynnir ynghyd â'r camau a gymerir mewn ymateb. [Y Safon – 17.3] | 1/4/2014 | Rhoi cod cwyno newydd ar waith, a chofnodi pob cwyn ar gronfa ddata Civica APP. Bydd hyn yn cynnwys cofnodion manwl o'r holl gamau a gymerwyd mewn ymateb. | |
| 19.11 (i) Gweithredu'r gweithdrefnau monitro mewnol yn llawn a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd. [Y Safon – 19.1 a 19.3] | 1/4/2014<br><br>Wedi'i gwblhau | • Adolygu'r weithdrefn monitro mewnol ddiwygiedig ar gyfer Safonau Bwyd a'i rhoi ar waith, gan sicrhau bod cofnodion o fonitro mewnol yn cael eu cadw ar ffeil.<br><br>• Cryfhau monitro mewnol o gamau gorfodi hylendid bwyd i sicrhau bod gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael eu bodloni. | |

**Atodiad B**

## Dull/Methodoleg yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio ystod o wahanol fathau o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

### *(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol*

Derbyniwyd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol gan yr Awdurdod Lleol cyn yr archwiliad:

- Cynlluniau Darparu Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2011/12 a 2012/13 a chofnodion cysylltiedig y Cabinet
- Cynllun Darparu Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2012/13 a chofnodion cysylltiedig y Cabinet
- Cynllun Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Gwasanaethau Rheoleiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2012-13
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2010-13
- Adroddiadau Rheoli Perfformiad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Diogelwch Cymunedol a Llywodraethu
- Gweithdrefn Rheoli Dogfennau
- Gweithdrefn ar gyfer Awdurdodi Swyddogion
- Gweithdrefn Graddnodi a Chynnal a Chadw Offer
- Gweithdrefnau Ymyriadau ac Ailymweliadau Bwyd
- Gweithdrefn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Strategaeth Arolygu Arall ar gyfer Busnesau Bwyd Risg Isel
- Gweithdrefn Gwyno am Ddiogelwch Bwyd
- Gweithdrefn Gwyno am Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
- Gweithdrefn Rheoli Meddalwedd Cronfa Ddata a Data
- Polisi Samplu Bwyd
- Gweithdrefn Samplu Bwyd
- Gweithdrefn Samplu Safonau Bwyd
- Rhaglen Samplu Bwyd Microbiolegol 2012/13
- Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru
- Gweithdrefn Hysbysu am Glefydau Trosglwyddadwy
- Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy
- Gweithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd
- Polisi Cydymffurfio a Gorfodi Amddiffyn y Cyhoedd
- Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd
- Gweithdrefn Prosesu Troseddau
- Rhestr Wirio Asesu Troseddau Amddiffyn y Cyhoedd

- Gweithdrefn Gwyno’r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gweithdrefn Fonitro Fewnol Iechyd yr Amgylchedd
- Gweithdrefn Fonitro Fewnol Safonau Bwyd

***(2) Adolygu ffeiliau***

Adolygwyd nifer o gofnodion ffeil yr Awdurdod Lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cofnodion arolygu safleoedd bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a safleoedd bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol
- Cofnodion awdurdodi a hyfforddi swyddogion
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion digwyddiadau bwyd

***(3) Adolygu cofnodion ar y gronfa ddata:***

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar y gronfa ddata yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu cyflawnrwydd cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau hylendid bwyd, ymchwiliadau i gwynion am fwyd a safleoedd bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil
- Asesu cyflawnrwydd a chywirdeb y gronfa ddata safleoedd bwyd
- Asesu gallu’r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd a’r wybodaeth fonitro sy’n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**(4) *Cyfweld swyddogion***

Cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau’r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd/bwyd anifeiliaid yn gweithredu’n ymarferol. Cyfwelwyd y swyddogion canlynol:

Y Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd
Y Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd
Y Rheolwr Safonau Masnach
Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd, gan gynnwys y swyddog arweiniol ar gyfer hylendid bwyd
Y Swyddog Technegol
Swyddogion Safonau Masnach, gan gynnwys y swyddog arweiniol ar gyfer safonau bwyd

Y Swyddog Masnachu Teg

Mae’r farn a’r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweliadau â swyddogion yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) *Gwiriadau dilysu ar y safle:***

Cynhaliwyd ymweliadau dilysu â dau fusnes bwyd lleol gyda swyddogion. Diben yr ymweliadau oedd dilysu canlyniad yr arolygiadau diwethaf a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol ac asesu i ba raddau yr oedd y gweithgareddau gorfodi a’r penderfyniadau a wnaed yn bodloni gofynion deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol.

# Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Archwilio Rhyng-awdurdod | System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig. |
| Archwiliwr Bwyd | Unigolyn â chymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Awdurdod Cartref | Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol menter wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw. |
| Awdurdod Gwreiddiol | Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd. |
| CPIA | Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol. |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan- |

| | |
|---|---|
| | amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd<br>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth<br>• Cynllun Monitro<br>• Cynllun Archwilio<br><br>Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.<br><br>Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.<br><br>O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon. |
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog sydd â'r cymwysterau rhagnodedig a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd. |
| Fforwm Aelodau | Fforwm awdurdod lleol lle y mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. |
| Ffurflenni OCD | Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd. |
| Gweithiwr Iechyd yr Amgylchedd Proffesiynol | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |

| | |
|---|---|
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle y mae’n hollbwysig, o safbwynt diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli’n cael ei gynnal yn gywir, gan felly ddileu neu leihau’r perygl i lefel ddiogel. |
| Hylendid bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy’n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd. |
| Hysbysiad Gwella Hylendid | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy’n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd. |
| LAEMS | System electronig yw’r System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i’r Asiantaeth Safonau Bwyd. |
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae’n llywodraethu’r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol. |
| Prif Awdurdod | Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy’n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy’n rhoi cyngor i’r busnes hwnnw. |
| Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd | System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio’r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd. |
| Safle cymeradwy | Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddo sy’n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Safonau Masnach | Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy’n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, |

| | |
|---|---|
| | ymhlith cyfrifoldebau eraill. |
| Sgôr risg | System sy'n rhoi sgôr i safle bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safle hwnnw. Er enghraifft, dylai safle risg uchel o ran hylendid gael ei arolygu o leiaf bob 6 mis. |
| Swyddog Awdurdodedig | Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |